

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , 9 Ebrill 2019 yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Cyn y cyfarfod am 6.30 o'r gloch roedd Network Rail yn bresennol i drafod cynlluniau ar gyfer croesfan Merllyn (eitem 10 ar agenda) - roedd cynrychiolaeth gan Ms Christine Booth Rheolwr Croesfan Rheilffyrdd, Ms Hannah Thomas Gweithredwr Cysylltiadau Cymunedol a Mr Phil Caldwell Rheolwr Croesffyrdd.

Gweddi agoriadol

1-04/19: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George; Cadeiriwyd agendwm 7(b) gan y Cyng., Sian Williams

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Sian Williams; Cyng. Angela Hughes,
Roedd Mr Cynan Jones yn bresennol ar gyfer agendwm 12, Strydoedd Unigryw

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-04/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price;

3-04/19: Datgan diddordeb

Cyng. Wayne Roberts ar gyfer 7(a) C/19/0322/35/LL - Estyniad ar flaen eiddo - Adre, Lon Ednyfed, Criccieth, LL52 0LD;

Cyng. Elizabeth George ar gyfer 7(b) C/19/0326/35/LL Cais i godi dau dŷ forddiadwy - 2, Radcliffe Road, Criccieth, LL52 0LB

4-04/19 Cadarnhau cofnodion mis Mawrth 2019

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-04/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-04/19: Gohebiaeth

- a. Betsi Cadwaladr - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliad Betsi Cadwaladr Mawrth 2019 - e-bost 20 Mawrth 2019 wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- b. Sefydliad Materion Cymreig - Cyfraniad eich cyngor at wefan Deall Lleoedd Cymru - e-bost 27 Mawrth 2019

Gwahoddiad i'r Cyngor Tref i gyflwyno disgrifiad naratif o hyd at 150 o eiriau a oedd yn diffinio tref Criccieth ar gyfer gwefan Deall Lleoedd Cymru - erbyn 29 Ebrill 2019

Penderfyniad: Cyng. Robert Cadwalader a'r Clerc i baratoi ymateb.

- c. Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymgynghoriad: Trafodaeth o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2013 - e-bost 2 Ebrill gan Un Llais Cymru

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

7-03/19: Ceisiadau Cynllunio

Roedd dau gais wedi dod i law ers cyhoeddi'r agenda – ac wedi eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor:

- a. C19/0322/35/LL – Estyniad ar flaen eiddo – Adre, Lon Ednyfed, Criccieth, LL52 0LD

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

- b. C19/0326/35/LL – Cais i godi dau dy fforddiadwy – 2, Radcliffe Road, Criccieth, LL52 0LB

Penderfyniad: Dim sylwadau

- c. Roedd y Clerc wedi derbyn rhybudd am gais arall a oedd wedi cyrraedd ar e-bost y diwrnod hwnnw sef: C19/0353/35/CT Gwaith i goed sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Gadwraeth- tir tu cefn i 44, Gorseddfa, Criccieth, LL52 0DW. Nid oedd manylion llawn ar gael tan y diwrnod canlynol.

Penderfyniad: Gofyn i aelodau am sylwadau ar y cais drwy gyfathrebiaeth.

8-03/19: Cofnodion Cyfarfod Is-grŵp Cyllid, Polisi a Rheolaethol 20 Mawrth 2019

Roedd cofnodion o'r cyfarfod wedi'i gylchredeg. Materion yn codi:

- a. **6-03/19 Ystyriaeth o'r bidiau ar gyfer Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell**

Roedd y Cyngor Tref wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb i ddewis cwmni i ymgymryd â'r gwaith yn dilyn llwyddiant i gael grant o £10,000 gan Arloesi Gwynedd - rhaid i'r Cyngor Tref rhoi arian cyfatebol o 30%.

Cafwyd ystyriaeth o'r 3 cwmni a oedd wedi cyflwyno bidiau erbyn y dyddiad cau:

Roedd manylion y bidiau a matrix gwerthuso gyda'r meini prawf ar gyfer asesu'r bidiau wedi eu cylchredeg i aelodau'r Is-bwyllgor. Y meini prawf oedd:

- Deall sgôp y prosiect ac anghenion y cleiant
- Methodoleg a rheolaeth weithredol y cwmni
- Profiad a gallu personol allweddol yn ymwneud â'r prosiect
- Ansawdd a phrofiad o brosiectau tebyg
- Gallu i gyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg
- Gwerth am arian

Rhodddwyd ystyriaeth ofalus i'r bidiau a sgoriwyd allan o 10 ar gyfer pob un main prawf ar y matrix gwerthuso. Ar sail hyn, daeth Donald Insall Associates efo cwmni Celyn i'r brig, **Nodwyd y penderfyniad:-** I benodi Donald Insall Associates efo cwmni Celyn ac i gadarnhau hyn gydag Arloesi Gwynedd. Erbyn hyn roedd llythyr cynnig a'r cytundeb gyda' Arloesi Gwynedd wedi'i arwyddo ar ran y Cyngor Tref gan y Cyng. Elizabeth George, Cyng. Sian Williams a'r Cyng. Robert Cadwalader. Roedd y cwmni wedi cael ei gomisiynu i wneud y gwaith ac mae'r Clerc yn aros am fanylion pellach ganddynt am y camau nesaf.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth.

b. 7-03/19 Ystyriaeth o ffurflen gais a chanllawiau'r Cyngor Tref ar gyfer Ceisiadau am Gefnogaeth Ariannol

Roedd y Cyngor Tref wedi cytuno i adolygu ffurflen gais a chanllawiau'r Cyngor Tref ar gyfer ceisiadau cefnogaeth ariannol. Diolchwyd i'r Cyng. Dr Ian Rees am baratoi drafft ar gyfer ystyriaeth.

Penderfyniad yr Is-bwyllgor: I argymhell cymeradwyo'r ffurflen a chanllawiau yn Atodiad A o gofnodion yr Is-bwyllgor i'r Cyngor Tref, gan gynnig bod ystyriaeth i geisiadau am nawdd ym Mis Ionawr a Gorffennaf a bod yna system fonitro o wariant unrhyw gefnogaeth ariannol sy'n cael eu derbyn gan gyrff neu sefydliadau.

Penderfyniad y Cyngor Cymeradwyo argymhellion yr Is-bwyllgor a nodwyd uchod i'w weithredu ar gyfer 2019/20.

c. 8-03/19 Diweddariad ar gyfrifon 2018-2019 a'r broses o gymeradwyo cyfrifon diwedd y flwyddyn

Roedd ffigurau fyny at ddiwedd Chwefror 2019 gan gynnwys y daenlen wedi eu cylchredeg. Ers cyfarfod yr Is-Bwyllgor roedd ffigurau hyd at ddiwedd Mawrth, sef diwedd y flwyddyn ariannol wedi eu cylchredeg.

Nodwyd bod £48,677.34 wedi'i wario o'r gyllideb arferol fyny at ddiwedd Mawrth (£3,140.36 TAW),. Byddai modd cael ad-daliad o'r TAW.

Roedd £9,565.94 o'r £9885.00 wedi ei ddefnyddio o'r grant Cronfa Cofio Cyfraniad Criccieth (£450.79 TAW)

Nodwyd y ffigwr o £42,046.06 yn y cyfrif "Community Account" a £30,447.27 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd bil wedi ei dderbyn oddi wrth Gyngor Gwynedd ar gyfer torri gwair ychwanegol yn 2018/19. Roedd hyn yn swm sylweddol (£5k) ac oherwydd hynny byddai'n rhaid ychwanegu'r swm at gyllideb 2019/20.

Nodwyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor fel corff gymeradwyo'r cyfrifon diwedd y flwyddyn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor.

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

d. 9-03/19 Cyllideb 2019-20

Trafodwyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2019-20 - ar sail y gyllideb ddrafft a oedd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr 2018. Roedd rhai newidiadau yn cael ei gynnig, sef:

Cyflog Clerc - £9500

Torri Gwair - £10,000 (fyny o £5000 sef £5k x 2 gan nad oedd bil 2018/19 wedi ei dderbyn)

Nadolig - £5000 (lawr o £8,000 gan fod y Cyngor Tref wedi gwario ar oleuadau Nadolig ychwanegol yn 2018/19)

Prosiectau £29,000 (lawr o £30,000 oherwydd gwariant 2018/19)

Cyfrifon archwilio - £1100 (nid oedd bil 2018/19 archwiliad allanol wedi'i dderbyn)

Cyfraniadau eraill £5,000 (fyny o £2,000)

Ychwanegu costau cyfieithu - £1,000

Cofio Cyfraniad Criccieth - £319 - trosglwyddo o'r cyfrif. Nodwyd hefyd y byddai swm ychwanegol yn dod 'nôl i'r Cyngor drwy ad-daliad TAW 2018/19.

Ar gyfer Prosiectau roedd symiau wedi eu clustnodi ar gyfer 2019/20 yn barod:
Tua £3,874 i Astudiaeth Dichonoldeb Llyfrgell (gan nodi efallai y bydd angen ychwanegu costau at hyn)
£4,500 i Strydoedd Unigryw

Penderfyniad yr Is-bwyllgor:

I argymhell i'r Cyngor Tref i gymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2019/20 a hefyd gofyn i'r Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol i baratoi cynllun ar gyfer gwariant o'r arian prosiect erbyn Gorffennaf.

Penderfyniad y Cyngor: Cymeradwyo argymhellion yr Is-bwyllgor a nodwyd uchod – gan gynnwys y Gyllideb derfynol yn Atodiad 1 o'r cofnodion hwn.

9-04/19: Awdit o gyfrifon y Cyngor Tref 2018-19

- a. Nodwyd bod y Clerc wedi trefnu dyddiad yn hwyrach ym mis Ebrill i gyflwyno cyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer yr awdit mewnol sydd i'w gynnal gan Gyngor Gwynedd.
- b. Roedd manylion am yr awdit allanol gan y BDO wedi ei gylchredeg - byddai'n rhaid i'r Cyngor fel corff gymeradwyo'r cyfrifon diwedd y flwyddyn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor erbyn diwedd Mehefin ac roedd y BDO wedi gofyn i'r Cyngor gyflwyno'r ffurflen flynyddol wedi'i llenwi a'r holl wybodaeth y gofynnir amdano erbyn 1 Gorffennaf 2019.. Byddai angen arddangos yr hysbyseb archwilio hawl etholwyr mewn lle amlwg dim hwyrach na 16 Mehefin a than 1 Gorffennaf 2019 (hysbysfwrdd y Cyngor Tref a hefyd gwefan y Cyngor). Nodwyd hefyd swm o £10 credyd am archwiliadau gan y BDO ar gyfer 2016-17 a 2017-18 oherwydd camgymeriad gweinyddol gan y BDO am ormod o ffioedd wedi ei chodi ar lawer o gynghorau- bydd y BDO yn rhoi credyd yn erbyn cyfrif pob cyngor fel bod yr ad-daliad i'w weld yn y ffi a godir am archwiliadau 2018-19 yr haf hwn.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-04/19: Network Rail – Croesfan Merllyn

Roedd y Cyngor Tref wedi derbyn adroddiad gan gynrychiolwyr o Network Rail cyn y cyfarfod yn nodi bwriad y cwmni i gyflwyno cais i'r Adran Briffyrdd i gau Croesfan Merllyn i drafnidiaeth ond i'w gadw ar agor i gerddwyr. Y rhesymeg am hyn oedd angen lleihau risg o 25% yn ystod y bum mlynedd nesaf ac roedd y groesfan hon yn creu risgiau. Roedd yr opsiynau ar gyfer cerddwyr o dan ystyriaeth. Roedd y cwmni yn gwarantu y byddai arwyddion ar gyfer parcio a'r traeth yn cael eu symud os byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo. Nodwyd y byddai proses o ymgynghori gyda'r cyhoedd, gwasanaethau a chymdeithas y ramblers. Roedd yr holl broses yn debygol o gymryd 12 mis.

Penderfyniad: Nid oedd gan y Cyngor Tref wrthwynebiad i'r cynlluniau a oedd wedi eu cyflwyno iddynt a diolchwyd i Network Rail am ddod i drafod y bwriadau cyn cyflwyno cais i'r Adran Briffyrdd.

11-04/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

Nodwyd gyda balchder bod y Cyngor Tref wedi ennill gwobr Menter Dreftadaeth Orau Un Llais Cymru ac roedd y Cyng. Robert Cadwalader, y Clerc a'r Rheolwr Prosiect wedi mynychu'r gynhadledd a gynhaliwyd yn Llanellwedd ar 28 Mawrth 2019 i dderbyn y wobwr. Cafwyd derbyniad da o'r cyflwyniad ar y prosiect yn y gynhadledd. Yn ôl Prif Weithredwr Un Llais Cymru: *"Your Council's application and actions are a shining example of what can be achieved by local councils in Wales"* Nodwyd bod y Neuadd Goffa yn hapus iawn i dderbyn tlws gwydr i'w arddangos yn y Neuadd Goffa.

Roedd y diwrnod i rannu arfer dda yn hynod ddiddorol - a bydd adroddiad o'r diwrnod gyda'r enghreifftiau yn ymddangos maes o law. Roedd y Clerc wedi cylchredeg y datganiad i'r Wasg am y wobwr.

Penderfyniad: Derbyniwyd yr adroddiad gyda balchder a diolchwyd i bawb a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect hynod gyffrous hwn.

12-04/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

- a. Strydoedd Unigryw –Gwahoddwyd y Rheolwr Prosiect a oedd yn cydlynu'r gwaith i gyflwyno'r adroddiad ar y prosiect a oedd wedi ei gylchredeg cyn y cyfarfod. Nodwyd y byddai cynllun gweithredu ac amserlen a chostau yn barod yn fuan a bod y syniadau i'w gweithredu yn rhai cyffrous.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad.

- b. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell – roedd y Clerc yn aros i glywed gan y cwmni am y camau nesaf.

Penderfyniad: Cytuno y dylai'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol fod yn gyswllt ar gyfer adroddiadau ac yn y blaen tu allan i gyfarfodydd y Cyngor llawn.

- c. Roedd y Cynllun Cymunedol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Tref . -

Penderfyniad: Trefnu cyfarfod o'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol

13-04/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Nodi bod gohebiaeth yn cymryd lle gyda'r cyfreithiwr â Chyngor Gwynedd am adeilad y Llyfrgell.

Aros am ymateb Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn yr adroddiad

14-04/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Nodwyd bod y wybodaeth am ganlyniad yr asesiad gan Gyngor Gwynedd dal i'w ddisgwyl.

Penderfyniad: I gysylltu gyda'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad.

15-04/19 Torri gwair yn y dref

Roedd bil am y torri gwair ychwanegol gan Gyngor Gwynedd wedi'i dderbyn. Roedd gwahoddiad i'r Cyngor Tref ddanfôn sylwadau ar ddyddiadau penodol ar gyfer toriadau 2019/2020. Roedd y Clerc wedi gofyn am doriad cyntaf cyn Pasg a oedd newydd gael ei gyflawni .

Penderfyniad: Cytuno y dylai toriadau gymryd ystyriaeth o wyliau Banc a hefyd Gŵyl Criccieth ym mis Mehefin. Roedd y Cyngor Tref yn hapus iawn gyda safon y toriad cyntaf a dylid danfôn gair yn cadarnhau hyn i'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd.

16-04/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

17-04/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

18-04/19 Meinciau Tref Criccieth

Dim bydd i'w adrodd.

19-04/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Nodwyd bod y Cyng. Wayne Roberts wedi gofyn i drafod Llwybr 11 ac roedd wedi ceisio cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i drafod y pryderon gan ei bod hi'n amhosib cerdded arno.

Penderfyniad: Y Clerc i gysylltu gyda'r swyddog i holi am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Llwybr 11 ac i drefnu cyfarfod maes.

20-04/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref

Nodwyd bod yr hysbysfwrdd wedi ei archebu yn dilyn penderfyniad cyfarfod diwethaf – roedd y Clerc yn aros am ddyddiad i'w osod..

Penderfyniad: Derbyd yr adroddiad a nodi bod yna ddiddordeb gan grŵp yn y gymuned dderbyn yr hysbysfwrdd cyfredol os byddai modd trefnu hyn.

21-04/19 Cyflog Y Clerc

Nodwyd bod y Cyngor wedi cytuno blwyddyn yn ôl i adolygu cyflog y Clerc y mis yma.

Penderfyniad: trafod o dan faterion caeedig.

22-04/19 Derbyniadau

Dim

23-04/19: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.90 (siec 101317)*
• Cyflog y Clerc (Mawrth)	£660.18 (siec 101318)*
• Costau Teithio (Clerc)	£112.75 (siec 101319)
• Swyddfa Archwilio Cymru	£491.65 (siec 101320)
• C &MJ Jones	£1200.00 (siec 101321)
• H. G. (costau teithio)	£41.40 (siec 101322)
• Cyngor Gwynedd	£5794.85 (siec 101323)
• Un Llais Cymru	£110.00 (siec 101324)
• Menter Môn	£3873.60 (siec 101325)**
• Siân Shakespear	£200.00 (siec 101326)**

*cywiriad i'r ffigurau nodwyd ar y rhaglen

**anfonebau wedi eu derbyn ar ôl cyhoeddi'r agenda

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

23-03/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 14 Mai 2019.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 6 Mai 2019****

Atodiad 1 – Cyllideb Derfynol 2019/2020

Incwm

Praesept	£42,000
Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn)	£38,160
Trosglwyddiad o Grant Treftadaeth y Loteri	£319
Cyfanswm	£80,479

Gwariant

Cyflog	£9,500
Yswiriant	£1,700
Cyfieithu	£1,000
Cynnal llwybrau	£600
Torri Gwair	£10,000
Rhent stafell	£1,000
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£100
Aelodaeth	£400
Cyfrifon (archwilio)	£1,100
Cyrsiau£400
Nadolig	£5,000
Sul y Cofio£25
Deddf data£35
Costau Clerc swyddfa£850
Costau Clerc teithio£300
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£3,000
Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Cyfraniadau eraill	£5,000
Prosiectau	£29,000
Grant Treftadaeth y Loteri£319

CYFANSWM CYLLIDEB **£80,479**